**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MAWRTH, 16 MAWRTH 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: E.V.Latham, A.R.Lockyer, C.Clement-Williams, L.Jones, P.A.Rees a/ac P.D.Richards

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Evans, A.Jarrett, N.Pearce, C.Griffiths, C.Furlow-Harris, C.Plowman a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **POLISI SYLWADAU, CANMOLIAETHAU A CHWYNION 2021**

Nododd yr Aelodau y dylai'r Polisi Sylwadau, Canmoliaethau a Chwynion ddarllen 2021 ac nid 2024, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo’r Polisi Sylwadau, Canmoliaethau a Chwynion diwygiedig fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod gan y cyngor ymagwedd gyson wrth ymdrin â sylwadau, canmoliaethau a chwynion a sicrhau bod arferion a gweithdrefnau'r cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion yn unol â Phroses ac Arweiniad Trin Cwynion Model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Cymru o dan Adran 38 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

4. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 5 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

5. **YMESTYN Y CYMORTH GRANT I FUSNESAU YR EFFEITHIWYD ARNYNT GAN GYFYNGIADAU MASNACHU YCHWANEGOL YM MIS MAWRTH 2021.**

Nododd yr Aelodau nad oedd yn ofynnol cynnal Asesiad Effaith Integredig fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Penderfyniad:**

Rhoddir y gymeradwyaeth honno i roi grantiau i fusnesau cymwys ar gyfer 2020/2021 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd oddi wrth Llywodraeth Cymru.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i wneud taliadau i fusnesau cymwys yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

7. **CANOLFAN RAGORIAETH AR GYFER RHEILFFYRDD YNG NGHYMRU**

**Penderfyniadau:**

Rhoi ystyriaeth briodol i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig:

1. Nodi'r gwaith a wnaed hyd yma gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrth ddatblygu'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd;

2. Nodi'r cytundeb benthyciad rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys i hwyluso datblygiad y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd;

3. Bod y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys ar Gytundeb Menter ar y Cyd diwygiedig ar gyfer Cam 2 y prosiect, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law i'w gymeradwyo fel y gellir bwrw ymlaen â hyn.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Ceisio cymeradwyaeth gan Aelodau i barhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys ar gytundeb menter ar y cyd diwygiedig,

gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn 2021 i'w gymeradwyo fel y gellir bwrw ymlaen â menter ar y cyd o'r fath.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

**CADEIRYDD**